O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 951 (Cy. 239)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (East Street, Bridge Street a West Street, Trefdraeth, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (East Street, Bridge Street a West Street, Trefdraeth, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 07:30 o’r gloch ar 1 Hydref 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor yn Nhrefdraeth yn Sir Benfro.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd o’r enw East Street, Bridge Street a West Street sy’n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r U3447 (o’r enw Feidr Bentick) hyd at bwynt 1.11 o gilometrau i’r gorllewin o’r gyffordd honno.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Medi 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru